**Cofnodion Bwrdd TrC**

**23 Mehefin 2022**

09:30 – 17:00

Lleoliad – Llys Cadwyn ac ar-lein

---

**Yn bresennol**
Scott Waddington (Cadeirydd); Alun Bowen, Heather Clash, Vernon Everitt, Sarah Howells, Nicola Kemmery, Alison Noon-Jones, a James Price.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan; Leyton Powell (eitem 2); Natalie Feedy (eitemau 1 i 3); Lewis Brencher, Karl Gilmore, Geoff Ogden a Dan Tipper (Sesiwn diweddariad gweithredol (Rhan B).

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Rhan A – Cyfarfod o'r Bwrdd Llawn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb yno.

**1c. Datganiadau Diddordeb**
Dim wedi'i ddatgan.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 19 Mai 2022 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Nodwyd bod angen galwad ffôn i godi'r rhwystr ar rai croesfannau rheilffordd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl yn ystod y streic ac roedd rhaid i weithwyr gynnal eu hasesiad risg eu hunain ar gyfer croesi'r trac i wneud gwaith pwysig.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Mae gwneud rhywbeth clên yn creu ewyllys da. Roedd cwmni band eang yn bwriadu cloddio ar draws caeau i osod cebl a fyddai wedi tarfu ar ddathliad priodas. Gofynnwyd i'r cwmni beidio â thyllu ar ddiwrnod y briodas, ac roedd

teulu'r parti priodas wrth eu bodd pan gytunwyd ar hyn. Cafodd y weithred hon o ewyllys da dderbyniad da ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn ddiweddar, wrth hedfan allan o'r DU, roedd pobl wedi wynebu gwasanaeth gwael i gwsmeriaid a chyfathrebu annigonol a phroblemau staffio amlwg. Nodwyd nad yw beio pobl eraill yng ngwres y foment yn unioni'r sefyllfa.

**2. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Cynhaliwyd prawf treiddio diogelwch yng nghompownd Abercwmboi yn dilyn tân maleisus. Mae AIW nawr yn gweithio gyda'r Tîm Gwytnwch i adolygu'r mesurau presennol, yn cynnwys mesurau diogelwch.

Mae adroddiad Parhad Busnes wedi cael ei gyhoeddi ac nid oes camau y mae angen eu cymryd ar unwaith. Mae cynllun 12 mis ar waith i gyflawni'r camau sy'n weddill.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda thîm Diogelwch Grŵp Amey i edrych ar ragor o gyfleoedd i gydweithio a gwella'n barhaus.

Ar lefel Grŵp, adroddwyd un mân ddamwain yn ystod y cyfnod. Roedd 22 o achosion lle bu ond y dim i ddamwain ddigwydd, y rhan fwyaf yn ymwneud â thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae archwiliad iechyd a lles yn cael ei gynllunio gyda'r bwriad o gyfrannu at strategaeth wedi'i diweddaru.

Roedd perfformiad cyffredinol da ar draws yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol o ran Diogelwch Rheilffyrdd, ac roedd sgôr gyfun y Mynegai Marwolaethau wedi'i Bwysoli yn is na'r hyn a ragwelwyd. Ni chofnodwyd unrhyw SPADS yn ystod y cyfnod, [redacted]. Roedd 22 o anafiadau i bobl nad oeddent yn rhan o'r gweithlu, 14 ohonynt drwy lithro, baglu neu syrthio neu PTI. Roedd Ymosodiadau Corfforol ar y Gweithlu yn uwch na'r ffigurau disgwyliedig. Dywedwyd wrth y Bwrdd bod y defnydd o gamerâu corff yn dal i fod yn isel ar oddeutu 10%. Cadarnhawyd mai dim ond os bydd rhywbeth yn digwydd y bydd data'n cael ei lwytho i lawr, a bod modd diffodd y camerâu a'u rhoi ar waith pan fo angen. Cytunwyd i drafod gyda'r undebau **[GWEITHREDU James Price]**.

Trafododd y Bwrdd y digwyddiad yn Craven Arms yn ddiweddar. Er bod potensial yn y digwyddiad ar gyfer anaf difrifol neu farwolaeth, cafodd yr holl deithwyr a'r staff eu symud oddi ar y trên yn ddiogel. Cadarnhawyd bod y ddamwain wedi digwydd o ganlyniad i adael peiriant cloddio wedi'i ddwyn ar y cledrau. Nododd y Bwrdd mai HTP sy'n bennaf gyfrifol am yr ymchwiliad a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu gan yr holl randdeiliaid yn y tîm Rheilffyrdd, i'w darparu ar gais i Network Rail ac RAIB. Mae'r tîm Rheilffyrdd yn cymryd rôl gefnogol yn yr ymchwiliadau, ond mae adolygiad mewnol ar y gweill i ddysgu gwersi o'r ymateb i'r digwyddiad.

Mae cyfradd damweiniau ac anafiadau staff ar draws Rheoli'r Seilwaith a Thrawsnewid yn dal yn isel iawn ac ni nodwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn ystod mis Mai. Roedd perfformiad Pullman Rail wedi gwella hefyd.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

**3. Diweddariad strategol**

**3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Yn ystod y mis diwethaf, parhawyd i gyflawni cynlluniau ar draws busnes TrC gan symud i gam cyntaf rhoi'r model gweithredu a'r strwythurau newydd ar waith. Y ffocws o hyd yw sicrhau bod y cynlluniau gorau a mwyaf integredig ar gyfer darparu'r rhwydwaith trafnidiaeth y mae ei angen ar Gymru, ac sy'n angenrheidiol i sicrhau newid moddol

sylweddol, yn cael eu rhoi ar waith, ar yr un pryd gweithredu'r cynlluniau hynny drwy gyflawni prosiectau a gwasanaethau.

Mae pryder yn dal i fodoli ynghylch perfformiad trenau bob dydd ond, yn ddiweddar, mae gwelliant cyffredinol wedi bod. Mae pryderon yn ymwneud â chanslo gwasanaethau a chanslo ymlaen llaw, defnyddio llai o gerbydau, argaeledd staff, staff yn gwirio tocynnau yn y salwnau, a'r amser mae teithwyr yn ei golli (ATG). Hysbyswyd y Bwrdd bod y metrig ATG yn cael ei adolygu i bennu ble mae angen gwelliannau i'r gwasanaeth drwy wella data rheoli a chael gwared ar ddigwyddiadau sy'n ystumio'r ffigurau ac felly'n cuddio tueddiadau gwaelodol.

Mae'r data diweddaraf am nifer yr ymwelwyr drwy'r giatiau yn dangos cynnydd ar gyfartaledd o hyd ac mae'n uwch nag 80% o'r ffigurau cyn covid erbyn hyn, gyda'r refeniw ar oddeutu 93% o'r lefelau cyn covid. Nodwyd bod y defnydd yn parhau i fod yn is o ran busnes ond yn uwch o ran hamdden. Ystyriodd y Bwrdd y cysyniad o osod targed "dim un sedd heb ei llenwi" a allai sbarduno dulliau arloesol o ddenu cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch y gallu i ateb y galw ar y llwybrau sy'n rhoi'r cynnyrch mwyaf, a fydd yn effeithio ar dwf refeniw. Nodwyd y bydd y streiciau presennol yn sicr o gael effaith negyddol ar dwf teithwyr a refeniw. Trafododd y Bwrdd yr angen i ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer digwyddiadau a chynyddu hyblygrwydd amser trenau. Mae tîm wedi cael y dasg o ymchwilio i rinweddau treialu gwasanaeth bws ar wahân ar gyfer y diwrnodau a'r llwybrau prysuraf.

[redacted]

[redacted]

Mae allbwn dylunio Llinellau Craidd y Cymoedd yn parhau i wneud yn well ac mae'n weddol sefydlog. Mae hyn yn golygu bod modd cyflawni'r rhaglen ddiwygiedig o hyd ond mae'n dal yn fregus. Mae pob ymdrech yn parhau i sefydlogi a, lle bo modd, gwella'r sefyllfa.

Dros y mis diwethaf, mae cynnydd da wedi bod ar adeiladu Llinellau Craidd y Cymoedd gyda'r allbynnau'n dangos cynhyrchiant da. Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar y rhaglen a'r costau diwygiedig. Fodd bynnag, mae'r rhaglen mewn perygl gan nad oes cymeradwyaeth wedi'i rhoi ac na ellir, felly, mynd i gostau er bod hynny'n ofynnol yn y pythefnos nesaf.

[redacted]

Trafododd y Bwrdd deithio llesol a chytunodd y byddai'n fuddiol cael her gan arbenigwyr o bryd i'w gilydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Cafwyd trafodaeth ar yr angen i sicrhau cysondeb ymysg is-bwyllgorau'r Bwrdd â'r gwaith sydd ar y gweill i weithredu'r Model Gweithredu Targed **[Gweithredu David O'Leary a Jeremy Morgan]**.

**3b. Cyllid a llywodraethu**

Mae gweithgarwch sylweddol wedi bod o ran cau blwyddyn ariannol 2021-22, ond hefyd o ran paratoi ar gyfer 2022-23 yng nghyswllt cynllunio busnes ac adrodd ar gerrig milltir. Mae cyfrifon TrC a Gwasanaethau Arloesi TrC wedi cael eu cau, ond nid yw cyfrifon Rheilffyrdd TrC wedi cael eu cwblhau eto, gyda thrafodaethau'n parhau gyda'r archwilwyr allanol ynghylch trin costau pensiwn.

[redacted]

Bu'r Bwrdd yn trafod diogelu refeniw a dywedwyd wrthynt fod y ddarpariaeth ar y giatiau wedi gwella ynghyd â sganio ar y trenau.

Nododd y Bwrdd gyfrifon rheoli ac adroddiad ariannol mis Mai.

Gadawodd Natalie Feeley y cyfarfod.

**5. Is-bwyllgorau**

***Pwyllgor Archwilio a Risg***

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg bapur yn argymell i'r Bwrdd, o ran datganiadau ariannol TrC, ei fod o'r farn:

- Y gall James Price a Heather Clash lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth i KPMG;
- Y gall James Price lofnodi'r datganiadau ariannol ar ran y Bwrdd.

Derbyniodd y Bwrdd yr argymhelliad a chadarnhaodd ei gymeradwyo.

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd wedi argymell i Fyrddau perthnasol is-gwmnïau TrC y gall cyfarwyddwyr y canlynol gymeradwyo eu datganiadau ariannol:

- Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf
- Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig
- Rheolwr Seilwaith Cymru Last Resort Limited
- PTI Cymru Holdings Ltd

Derbyniodd y Bwrdd yr argymhelliad a chadarnhaodd ei gymeradwyo.

Derbyniodd y Bwrdd argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio a Risg y gall y Bwrdd, ar sail ei waith a'i oruchwyliaeth, gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi.

Derbyniodd y Bwrdd argymhelliad hefyd bod y Bwrdd yn cymeradwyo Polisi Archwilio a Sicrwydd TrC i'w gyhoeddi ar yr un pryd â'r Adroddiad Blynyddol.

***Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer***

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyfarfod y Pwyllgor yn ddiweddar. Ystyriodd y cyfarfod DPAion, gan gynnwys yr angen i wella amseroedd ymateb i gwynion, a gwefan Un Parth gan gynnwys darpariaeth Gymraeg.

Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn y cyfarfod nesaf **[Gweithredu Jeremy Morgan]**.

**6. Is-fyrddau**

Roedd cyfarfod diwethaf Bwrdd Rheilffyrdd TrC yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, dibynadwyedd MKIV, metrigau perfformiad, amser mae teithwyr yn ei golli, estyniadau prydles ar 175s a 769s [redacted].

**7. Y Bwrdd Llywio**

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gyfarfodydd diweddar y Bwrdd Llywio a oedd yn canolbwyntio ar drafodaethau partneriaeth strategol gyda Stadler, cynllun newydd Llinellau Craidd y Cymoedd a theithio llesol.

**8. Eitem gyfrinachol**

[redacted]

**<u>Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol</u>**

Ymunodd Karl Gilmore, Geoff Ogden a David O'Leary â'r cyfarfod.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

- [redacted]
- [redacted]

[redacted]

Gadawodd Alexia Course, James Kennedy ac Owen Clutterbuck y cyfarfod.

**10. Adroddiad ôl troed carbon**

Ymunodd Hayley Warrens a Natalie Rees â'r cyfarfod. Atgoffwyd y Bwrdd bod Llywodraeth Cymru, ym mis Mai 2021, wedi cyhoeddi Canllaw Adroddiadau Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru, sy'n gofyn am asesiad o allyriadau o gyfres o weithgareddau ychwanegol na chawsant eu hasesu mewn adroddiadau blaenorol. Mae'r canllawiau wedi cael eu cynhyrchu i gefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni ei darged sero net cyfun ar gyfer 2030. Mae adroddiad 2020/21 nawr yn ffurfio llinell sylfaen newydd i asesu cynnydd tuag at dargedau datgarboneiddio TrC.

Cafodd y Bwrdd wybod bod cyfanswm allyriadau corfforaethol 2021/22 TrC wedi cael ei amcangyfrif ar 304,846 $tCO_2e$, sy'n gynnydd cyffredinol o 26% o'i gymharu â 2020/21. Priodolir hyn i gynnydd yn ein darpariaeth gwasanaethau ar ôl codi cyfyngiadau Covid 19, yn ogystal â mwy o wariant wrth i ni symud ymlaen i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Nododd y Bwrdd y cyd-destun hwnnw o ran y ffigurau a darperir y cynnydd yn Adroddiad Blynyddol 2021/22.

Gadawodd Hayley Warrens y cyfarfod.

**11. Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae adolygiad o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei gyhoeddi gyda'r meini prawf tebygol yn nodi y bydd TrC yn cael ei ychwanegu at y ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan ddrafft presennol y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Cafodd y Bwrdd wybod, er y bydd y newid yn effeithio ar bob maes busnes, bod y gofyniad sydd ar TrC i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o dan Ddyletswyddau Gweinidogion Cymru ers sefydlu TrC wedi ei roi mewn sefyllfa dda o ran unrhyw ofynion posibl yn y dyfodol. Os bydd y ddyletswydd yn cael ei rhoi ar TrC, disgwylir y bydd yn rhaid i TrC lunio Cynllun Llesiant yn seiliedig ar Asesiad Llesiant a gynhelir yn unol â'r amserlen ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill; adrodd i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn unol â chyrff cyhoeddus eraill; ac eistedd ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 18 ardal y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
Cafodd y Bwrdd wybod hefyd am fanteision cael ei osod o dan y ddyletswydd, sef cymorth gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; a chydnabyddiaeth o gyfraniad TrC at gyflawni'r Ddeddf.

Gadawodd Natalie Feeley y cyfarfod.

**12. Diweddariad Teithio Llesol**

Ymunodd Matthew Gilbert â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Deithio Llesol. Crynodeb cyllid o 21-22 – tanwariant. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol 2021/22 a'r gyllideb ar gyfer rhaglen 2022/23.
Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd hefyd am adroddiad grŵp trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol sydd i'w gyhoeddi yr wythnos nesaf, gyda nifer o oblygiadau i TrC; a datblygu'r Fframwaith Monitro Teithio Llesol.
Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod gwariant Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol yn gyson drwy gydol y flwyddyn er mwyn osgoi unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

Nododd y Bwrdd fod gwariant y pen o'r boblogaeth ar fesurau Teithio Llesol yng Nghymru yn sylweddol uwch nag yn Lloegr.

Gadawodd Matthew Gilbert y cyfarfod.

**11. Diweddariad am Linellau Craidd y Cymoedd**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran cytuno ar y gyllideb ar gyfer Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd gyda Llywodraeth Cymru. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am statws dylunio ymarferol a oedd wedi gwella'n dda rhwng mis Ebrill a mis Mai a chynnydd yn y gwaith adeiladu, lle mae rhai risgiau ond mae mesurau lliniaru ar waith.

**12. Prosiectau seilwaith - yr wybodaeth ddiweddaraf am y chwe mis nesaf**

Nododd y Bwrdd broffil y prosiectau seilwaith am y chwe mis nesaf. Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.

**13. Cofrestr Risgiau Strategol**

Nododd y Bwrdd y Gofrestr Risgiau Strategol. Nodwyd bod y sgoriau risg wedi cael eu hadnewyddu a bod y risg o ran costau dwyn wedi'i dynodi'n broblem. Bydd datganiadau archwaeth risg yn cael eu rhannu fis nesaf.

Gadawodd Leyton Powell a Geoff Ogden y cyfarfod

**15. Diweddariad ar gyfathrebiadau**

Roedd y cyfnod blaenorol yn fwy heriol o ganlyniad i weithredu diwydiannol RMT a Network Rail, digwyddiad Craven Arms a chraffu ynghylch darparu digwyddiadau mawr. Cynhaliwyd trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Cymru ynghylch lleoliad streiciau o ran naratifau cyfathrebu manwl, gyda Gweinidogion yn mynegi diddordeb sylweddol. Yr hyn sy'n hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn yw cyfathrebu'n gryno, yn glir ac yn gyson â'n cwsmeriaid, oherwydd natur gymhleth y tarfu.

Mae cynlluniau ehangach o ran datblygu a meithrin brand, ymgysylltu â'r gymuned a newid ymddygiad yn parhau, ond mae'r awydd am gyhoeddiadau cyhoeddus ynghylch datblygu cadarnhaol wedi tawelu o ganlyniad i faterion ehangach yn y diwydiant.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfranogiad.